## P. H. JONES a hynt a helynt YR AMSERAU

# DYDDIAU HIRAETHOG YN TYNNU I'R TERFYN

BU DYFODOL *Yr Amserau* yn y fantol am beth amser ar ôl iddo ddychwelyd o Ynys Manaw i Lerpwl oherwydd anallu neu amharodrwydd y cyhoedd i dalu tair a dimai yr wythnos amdano.

Ond ar ôl i'w werthiant gwympo i 1700 copi yr wythnos yng ngwanwyn 1849, bu cryn gynnydd yn ystod gweddill y flwyddyn fel y gellid honni yn Ionawr 1850 fod y papur 'allan o berygl'. Yn wir, awgrymwyd y gellid ei ehangu pe llwyddid i ddenu 'rhai cannoedd' o danysgrifwyr newydd.

Mae'n amlwg mai'r prif broblem o 1849 ymlaen - heblaw'r hen stori o ddosbarthwyr a derbynwyr anonest - oedd analluogrwydd John Lloyd i sicrhau bod *Yr Amserau* yn cyrraedd ei ddarllenwyr yn brydlon.

Ymddengys fod Lloyd braidd yn ddigychwyn: awgrymodd Eleazar Roberts, er enghraifft, ei fod yn brin o 'push'. Ond, mewn gwirionedd, roedd Lloyd mewn sefyllfa anodd dros ben.

Oherwydd y prinder parhaol o arian parod, ni fedrai fforddio cadw stoc mewn llaw o bapur wedi ei stampio. Yn wir, roedd yn rhaid defnyddio rhan o elw'r wythnos flaenorol i brynu'r papur ar gyfer yr wythnos gyfredol. Os nad oedd yr arian ar gael erbyn bore Llun, byddai'n rhaid gohirio cynhyrchu'r newyddiadur.

Hyd yn oed pan archebid y papur argraffu'n brydlon, gallai pethau fynd o chwith: ar ddechrau Medi 1849 fe aeth y papur ar goll rhywle yng ngorsaf Manceinion o ddydd Mawrth tan ddydd Iau!

* * *

ER MWYN sicrhau bod *Yr Amserau* yn cyrraedd gogledd Cymru mewn pryd i fasnachwyr a ffermwyr fanteisio ar y prisiau marchnad a restrwyd ynddo, newidiwyd ei ddiwrnod cyhoeddi o ddydd Iau i ddydd Mercher ar ddechrau 1850.

Nod Lloyd oedd cynhyrchu papur a fyddai'n cynnwys y prisiau marchnadoedd a dderbynnid ganddo yn hwyr brynhawn dydd Mawrth mewn pryd i ddal y trên post i Gaer yn gynnar y noswaith honno. Arferid argraffu'r dalennau mewnol (y 'fform fewnol') nos Lun. Byddai'r rhan fwyaf o'r fform allanol hefyd yn cael ei chysodi ymlaen llaw, cyn derbyn prisiau marchnadoedd Lerpwl am bedwar o'r gloch brynhawn Mawrth.

Gan fod angen o leiaf awr a hanner ar gyfer cysodi'r prisiau (gwaith manwl dros ben) a'u gosod yn eu lle yn y fform, nid oedd gan Lloyd ond rhwng chwech o'r gloch a chwarter wedi saith i argraffu tua mil o gopiau ar gyfer gogledd Cymru, eu trefnu'n fwndeli, a'u rhuthro i Swyddfa'r Post. Yna gellid argraffu gweddill y copiau yn fwy hamddenol.

Byddai'r anhap lleiaf yn ddigon i ddrysu'r amserlen. Ambell waith byddai cysodwr yn absennol oherwydd afiechyd. Tro arall, rhedodd y peiriant argraffu allan o reolaeth, gan falurio cryn dipyn o deip.

Mae'n amlwg i Lloyd gael hen ddigon o gastiau'r peiriant, oherwydd fe gafodd wared ohono ar ddechrau Hydref 1850 gan brynu gwasg newydd ac argraffu'r *Amserau* â llaw nes i'r cynnydd yn y cylchrediad oherwydd Rhyfel y Crimea ei orfodi i brynu peiriant argraffu ager ym mis Awst 1854.

Yn anffodus, nid oedd dal y trên post yn gwarantu y byddai'r *Amserau* yn cyrraedd ei darllenwyr yn brydlon bob amser.

Daeth Lloyd i gredu bod ambell i bostfeistr yn cadw'r *Amserau* yn ei swyddfa hyd nes iddo gael cyfle i'w ddarllen yn drwyadl. Yn ddiweddarach, yn ystod Rhyfel y Crimea, fe'i argyhoeddwyd bod cynllwyn ar droed i rwystro dosbarthu'r newyddiadur am resymau gwleidyddol.

Cynigiodd wobr sylweddol i unrhyw un a lwyddai i ddatgelu'r sawl a oedd yn ymyrryd â chylchrediad y newyddiadur, ond nid oes sôn am neb yn ei hennill.

* * *

O DDIWEDD 1849 ymlaen mae gwedd fwy proffesiynol ar y modd y cyflwynwyd cynnwys *Yr Amserau*. Dechreuwyd cynnwys adrannau megis 'Congl y Dirwestwyr' a 'Chongl yr Amaethwr' lle y casglwyd at ei gilydd hanesion o ddiddordeb i grwpiau penodol o ddarllenwyr.

Mewn adran arall, y Dyddlyfr Golygyddol, cawn drafodaeth ddiddorol ar broblemau golygu'r newyddiadur - yn arbennig y dasg ddiflas o dalfyrru adroddiadau hirwyntog.

O bryd i'w gilydd ceid sôn am *Yr Amserau* yn danfon gohebydd i baratoi nodiadau llaw-fer ar achlysur pwysig megis darlith Dr John Phillips ar 'Babyddiaeth, Eglwys Loegr ac Ymneilltuaeth' a draddodwyd ym Mangor ddiwedd Tachwedd 1850.

O fisoedd cynnar 1850 ymlaen, defnyddiwyd blociau bychain ar ddechrau'r golofn o hanes seneddol a 'Chongl yr Amaethwr'. Yna manteisiwyd ar y wasg newydd ar ddiwedd Hydref i gyhoeddi llun enfawr (23' wrth 8') o'r Palas Grisial ar ddiwedd Hydref.

* * *

PWY, YNTE, oedd yn gyfrifol am dorri tir newydd fel hyn? Yn swyddogol, Hiraethog oedd y golygydd tan ddiwedd 1852, ond ceir cryn dipyn o dystiolaeth sy'n awgrymu ei fod wedi ymryddhau i raddau helaeth iawn o'i ddyletswyddau ymhell cyn hynny.

Mor gynnar â mis Chwefror 1850 hysbysodd Hiraethog a John Jones y darllenwyr eu bod ill dau wedi rhoi'r gorau i olygu gohebiaeth *Yr Amserau* ers dechrau'r flwyddyn. Cyhoeddwyd llythyrau oddi wrth y 'Rhen Ffarmwr mor anfynych nes peri i un darllenydd holi ym mis Awst 1850 a oedd yr henwr wedi ymfudo i'r Unol Daleithiau!

Blwyddyn yn ddiweddarach, mewn ymgais i brofi nad oedd y newyddiadur yn or-gefnogol i'r Annibynwyr, cawn ynddo ddatganiad nad oedd ei berchennog na'i gyhoeddwr na'i brif olygydd yn perthyn i'r enwad hwnnw. (Mae'n debyg mai gwir ystyr y geiriau tywyll hyn yw mai John Lloyd a lenwai'r tair swydd).

Yn ogystal â'r dystiolaeth anuniongyrchol hon, mae gennym ddau dyst uniongyrchol o'r modd yr ymbellhaodd Hiraethog.

Yn ei atgofion diddorol dywed Eleazar Roberts mai 'ychydig iawn' yn ei dyb ef oedd cysylltiad Hiraethog â'r newyddiadur pan ddechreuodd yntau ysgrifennu iddo ar ddechrau 1851: ni fyddai'n gwneud mwy na chyfrannu ambell i erthygl o bryd i'w gilydd.

Pan ddaeth Ieuan Gwyllt i Lerpwl tua diwedd 1852 i fod yn 'is-olygydd' *Yr Amserau*, cafodd gryn sioc o ddarganfod nad oedd Hiraethog yn golygu'r papur mwyach a bod yr holl gyfrifoldeb felly'n syrthio'n hollol ddirybudd ar ei ysgwyddau yntau.

Mewn llythyr at ei gyfaill Thomas Levi ddiwedd Mawrth 1853, cwynodd mai 'y gwirionedd anghysurus i mi yw ni ysgrifennodd Rees gymaint ag un llinell i'r papyr er pan y daethym yma.' Roedd Lloyd wedi llwyddo i gelu oddi wrth bawb cyn lleied oedd a wnelo Hiraethog â'r newyddiadur rhag ofn i'w gylchrediad ddisgyn!

* * *

NI FEDRAI Ieuan Gwyllt esbonio pam yn union yr ymbellhaodd Hiraethog. Roedd yn brysur iawn: yn ogystal â'i orchwylion arferol cyhoeddodd ym 1851 ei gyfrol Saesneg *Providence and Prophecy*, dehongliad rhagluniaethol o chwyldroadau 1848, 'un tudalen o'r hwn', meddai Hiraethog, 'a gymmerai gymmaint o'i amser i'w baratoi ag a gymmerasai hanner cant o dudalenau yn y Gymraeg.'

Cyfansoddodd ei awdl enwog ar 'Heddwch' yn ystod yr un flwyddyn, a dechreuodd gyfansoddi nofel, *Caban F'Ewythr Robert*, ym mis Hydref 1852. Ar ben hyn oll, roedd hefyd erbyn hyn yn un o olygyddion *Y Dysgedydd*.

Ond ym marn Ieuan Gwyllt, 'esgus' oedd prysurdeb Hiraethog: er na wyddai beth yn union a ddigwyddasai rhyngddo â Lloyd, deallodd fod 'rhyw oerfelgarwch wedi cymeryd lle' cyn iddo ef ddod i Lerpwl.

Rai blynyddoedd yn ddiweddarach cadarnhaodd Eleazar Roberts nad oedd pethau'n dda rhwng Hiraethog a John Lloyd erbyn dechrau'r 1850au, gan awgrymu bod gan Hiraethog 'resymau digonol' na fynnai ef fanylu arnynt dros lacio'i gysylltiad â'r *Amserau*.

Felly, pwy oedd yn gyfrifol am olygu'r *Amserau* o 1849 ymlaen? Yn ôl Eleazar Roberts, cadwai John Lloyd olwg gyffredinol ar ei gynnwys ond ni ysgrifennai unrhyw ran ohono.

Roedd gan John Jones, cyd-sefydlwr y newyddiadur, rhyw fath o gyfrifoldeb am olygu llythyrau darllenwyr tan ddechrau 1850 ac fe barhaodd i gyfrannu erthyglau iddo wedi hynny: ef a oedd yn paratoi'r newyddion tramor pan ddaeth Ieuan Gwyllt i Lerpwl.

Ond y gŵr a ysgwyddai ben tryma'r baich rhwng 1849 a 1851 oedd Thomas Manuel. Roedd Manuel yn un o deulu o blant disglair a daeth i sylw Arglwyddes Llanofer yn 1836. Trefnodd hithau i'w rieni gael swyddi ar ei hystad tra bo'r bechgyn yn derbyn addysg dda.

**i barhau**


# AR GAEL

MAE'R llyfrau isod tros ben gennyf, ac ar gael i ddarllenwyr **Y Casglwr**:

Pregethau a Darlithiau - Samuel Roberts, Utica, Efrog Newydd, 1865.

Cofiant Rhys Gwesyn Jones, Granville, Efrog Newydd, 1902.

Cofiant a Phregethau David Davies, Oshkosh, Wisconsin, Gwasg y Drych 1905.

Llwybrau Bywyd gan Wlm. D. Davies (Scranton Pa.), cyhoeddwyd yn Utica, 1889.

Dafydd Morgan, nofel gan R. R. Williams, L'anse, Michigan, cyhoeddwyd yn Utica 1897 (ail-rwymwyd)

Hanes Porthmadog gan Edward Davies 1913.

David Greenslade,
2, Tŷ Isaf,
Cefn Cribwr,
Pen-y-bont ar Ogwr,
Morgannwg Ganol
CF32 0AU
(Ffôn: 0656 740111)